Rhifyn 1

# Newyddion Diweddaraf y Dwyrain



NEWYDDION DIWEDDARAF Y DWYRAIN

**Eich Plant. Dyfodol Caerdydd.**

## Helo a Chroeso!

Croeso i rifyn cyntaf y cylchlythyr a fydd yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch am gynlluniau i wella safon addysg Dwyrain Caerdydd.

Eich cylchlythyr chi yw hwn, ac rydym am i chi gyfrannu ato.  Byddwn yn anfon copïau i rieni yn rheolaidd, a gobeithiwn roi atebion i chi i'r holl gwestiynau rydych wedi bod yn eu codi.

Rydych eisoes wedi rhoi'ch barn ar eich dyheadau o ran addysg yn y dwyrain, a chymeradwyo'r syniad o sefydlu ysgol fodern newydd sbon yn y Dwyrain.

Bellach, rydym wedi creu Partneriaeth Gwella Addysg rhwng darparwyr cynradd, uwchradd ac ôl-16 yn yr ardal. Gwnaed llawer o waith y tu ôl i'r llen ers diwedd y llynedd, gyda phawb yn cydweithio i wella safonau'n gyflym.

Nod y cylchlythyr hwn yw rhoi gwybodaeth i chi am y newidiadau sy'n mynd rhagddynt yn Nwyrain Caerdydd. Yn y cyfamser, hoffwn glywed eich barn ar beth y gallwn ei wneud i wella pethau, felly da chi, cysylltwch â ni.

## *Y Ffeithiau

- BYDD safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni yn cau ym mis Awst.
- Ar 1 Medi, BYDD holl ddisgyblion Ysgolion Uwchradd Tredelerch ac Ysgol Uwchradd Llanrhymni yn cael eu haddysgu ar safle Ysgol Uwchradd Tredelerch gydag enw a gwisg ysgol newydd.
- Ym mis Medi, BYDD Blwyddyn 7 (y flwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd) yn cael ei haddysgu mewn dosbarthiadau cymysg waeth beth fo'r dalgylchoedd.
- BYDD y disgyblion yn gwisgo'r un wisg ysgol o 1 Medi 2013 gydag enw sy'n cysylltu'r ysgol uwchradd newydd â'r Bartneriaeth Gwella Addysg.
- BYDDWCH yn cael arian i brynu gwisg ysgol newydd ar gyfer mis Medi 2013.
- BYDD Ysgolion Uwchradd Tredelerch a Llanrhymni yn cau ar 31 Awst 2014 a BYDD ysgol newydd, gyda Phennaeth newydd, yn agor ar safle Ysgol Uwchradd Tredelerch ar 1 Medi 2014.
- Rydym yn cynllunio adeilad newydd i'r ysgol newydd a fydd yn agor ar 1 Medi 2016 ar safle addas yn y gymuned.

*Yn amodol ar gymeradwyaeth Cabinet Cyngor Caerdydd a chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar sail Achos Busnes Llawn

Arwain Caerdydd
**Adeiladu Cymunedau**

CARDIFF
CAERDYDD

# Cyfweliad â'r Cynghorydd Julia Magill



Y Cynghorydd Julia Magill yw'r Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n gyfrifol am Addysg yng Nghaerdydd. Gwnaethom siarad â Julia a'i holi am ei gobeithion ar gyfer y Dwyrain.

**Helo Julia, diolch am siarad â ni a chytuno i gyfweliad.**
Mae'n bleser, rwy'n falch o gael cyfle i siarad am y cynlluniau cyffrous sy'n mynd rhagddynt yn Nwyrain Caerdydd.

**Rydyn ni'n gwybod bod cynlluniau i wella safonau addysg wedi bod ar waith yn y Dwyrain ers cryn amser, sut allwn ni fod yn sicr fod pethau'n digwydd?**
Fel y dywedoch chi, mae llawer o waith eisoes wedi'i wneud, a'r nod o hyd yw sefydlu ysgol uwchradd fodern newydd ar safle addas yn y gymuned.

Rydyn ni'n siŵr y bydd datblygu ysgol newydd, dan Bartneriaeth Gwella Addysg, yn gwella safonau addysg yn gyflym wrth i'r ddwy ysgol ddod ynghyd ar Safle Tredelerch, cyn symud i'r ysgol newydd wedi iddi gael ei chodi.

**A fydd gan yr ysgol enw newydd?**
O fis Medi 2013 bydd enw newydd a gwisg ysgol newydd. Bwriedir gwneud llawer o waith yn ystod y flwyddyn yn arwain at sefydlu'r ysgol newydd yn ffurfiol ym mis Medi 2014 i sicrhau bod y ddwy ysgol yn cydweithio ac yn uno'n effeithiol.

Teimlaf ei bod yn bwysig cael dechrau newydd drwy gael hunaniaeth newydd y gall y ddwy ysgol fod yn rhan ohoni. Rydyn ni am i rieni, disgyblion a'r gymuned gyfrannu at y broses o ddewis enw newydd, felly cysylltwch â ni i roi'ch syniadau.

**Beth ydych chi am ei gyflawni yn Nwyrain Caerdydd?**
Rydyn ni am i blant a phobl ifanc yn y Dwyrain a phob rhan o Gaerdydd allu cyflawni eu llawn botensial, waeth beth fo'u cefndir. P'un a yw'ch plentyn yn academaidd neu'n ymarferol, yr hyn sy'n bwysig yw bod digon o gyfleoedd iddo ffynnu yn ei faes. Rydyn ni am wella cyfleoedd bywyd pobl, fel y gallan nhw hyfforddi, cael swydd a byw bywyd iach a hapus.

**Diolch am siarad â ni Julia**
Diolch. Rwy'n edrych 'mlaen at roi'r newyddion diweddaraf i chi yn fuan.

## Penawdau

### Y newyddion diweddaraf am y project

**Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi bwriad i Gau Ysgol**
Ar 21 Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ymgynghori ar gynnig i gau Ysgol Uwchradd Llanrhymni, flwyddyn yn gynt na chynlluniau Cyngor Caerdydd. O 27 Chwefror tan 27 Mawrth, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am eich barn ar y cynnig hwn mewn ymgynghoriad. Os cytunir arno, bydd Llanrhymni yn cau ym mis Awst 2013 (bwriad Cyngor Caerdydd yw ei chau ym mis Awst 2014).


Os bydd y Gweinidog yn penderfynu y dylai'r ysgol gau ym mis Awst 2013, o fis Medi 2013 byddai gan holl ddisgyblion Llanrhymni ddewis i fynd i Ysgol Uwchradd Tredelerch neu wneud cais i ysgol arall os oes llefydd ar gael.

Y llynedd, ymgynghorodd Cyngor Caerdydd â rhieni a'r gymuned ar gynigion i gau'r ddwy ysgol uwchradd ym mis Awst 2014 a sefydlu ysgol uwchradd ag 8 dosbarth mynediad ar safle Tredelerch nes bod modd codi ysgol newydd. Nid oedd gwrthwynebiad ffurfiol i hyn, a bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu'n swyddogol p'un a ddylid parhau â'r cynnig hwn ym mis Ebrill.



NEWYDDION DIWEDDARAF Y DWYRAIN

# Ble dylid codi'r ysgol uwchradd newydd?



Cwestiwn sy'n cael ei holi'n aml yn y gymuned yw ble fyddai'r ysgol newydd yn cael ei chodi.

Bydd yn agor ym mis Medi 2016 a lluniwyd rhestr fer o leoliadau posibl. Cafwyd cyfres o sesiynau galw heibio yn y gymuned, a chasglwyd barn pobl.

Os nad oeddech wedi gallu dod, gallwch weld copïau o'r map a meini prawf gwerthuso safleoedd ar ein gwefan. Cynhelir ymgynghoriad ffurfiol â'r gymuned yn ddiweddarach eleni ar restr fer o safleoedd i'r ysgol newydd, a byddwn yn cysylltu â chi bryd hynny.

**www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolion**

## Gwisg Ysgol

O fis Medi 2013 bydd gan yr ysgol enw newydd ac mae dyluniad y wisg ysgol yn rhan bwysig o hynny, yn enwedig i'r myfyrwyr!

Oherwydd goblygiadau newid y wisg i rieni, mae Llywodraethwyr yr Ysgol wedi cytuno i *ariannu cost gwisg newydd i bob disgybl, sy'n un peth yn llai i boeni amdano ym mis Medi.

Yn y cyfamser, byddai'n well i rieni beidio â phrynu gwisg ysgol bresennol y naill ysgol na'r llall ar gyfer mis Medi 2013. Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn cysylltu â disgyblion, rhieni a'r ysgolion i helpu i benderfynu ar ddyluniad y wisg ysgol a sut y gallwn gael un.

*nid yw'n cynnwys esgidiau



## Partneriaeth Gwella Addysg

Mae'r Bartneriaeth Gwella Addysg, cysyniad sy'n gwbl newydd i Gymru a Chaerdydd, wrthi'n codi safonau'n gyflym drwy gynnwys yr holl ddarparwyr addysg lleol yn ogystal â nifer o asiantaethau a phartneriaid yn y gymuned sy'n gallu cyfrannu eu harbenigedd priodol i gefnogi'r gwaith gwella.

Bydd y Bartneriaeth yn gweithio gyda chynrychiolwyr o'r meysydd canlynol i ddechrau gwneud gwahaniaeth go iawn:

- Ysgolion cynradd ac uwchradd a darparwyr addysg ôl-16
- Bwrdd Iechyd
- Gwasanaethau Plant
- Tîm Rheoli Cymdogaeth
- Dechrau'n Deg
- Yr Heddlu

Bu penaethiaid cynradd ac uwchradd yn cydweithio i sefydlu'r Bartneriaeth Gwella Addysg. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda sefydliadau partner, a phenderfynwyd mai'r ddwy flaenoriaeth i ganolbwyntio arnynt yw:

1. Addysgu a Dysgu: gan ganolbwyntio ar Lythrennedd 4-19 oed,
2. Rhwystrau i Ddysgu: gan ganolbwyntio ar Gymorth i Deuluoedd.

NEWYDDION DIWEDDARAF Y DWYRAIN

# Beth sydd mewn enw?

Y peth pwysicaf ar hyn o bryd yw paratoi ar gyfer pan fydd yr holl ddisgyblion ar safle Ysgol Uwchradd Tredelerch ym mis Medi, ond bydd enw newydd yr ysgol yn bwysig hefyd. Mewn gwirionedd, does dim syniad gennym ni am hyn ar hyn o bryd, a dyma'ch cyfle chi i gyfrannu!

**Rydym am glywed gennych!**
Byddwn yn cysylltu â disgyblion maes o law i fanteisio ar eu syniadau a'u creadigrwydd. Ond mae syniadau pawb yn bwysig, felly rhowch wybod inni beth ddylen ni alw'r ysgol newydd yn eich barn chi. Cawsom nifer o syniadau o'r ymgynghoriad gwreiddiol, ond efallai bod gennych fwy. Rhywbeth bachog, neu enw â chysylltiad hanesyddol - cysylltwch y naill ffordd neu'r llall.

Byddwn yn ystyried yr holl syniadau a safbwyntiau ac yn cyhoeddi'r manylion llawn yn ddiweddarach eleni. E-bostiwch **ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk** neu trydarwch **#eastschoolname**



# Eich Cwestiynau

Dyma rai o'r cwestiynau y mae rhieni fel chi wedi bod yn eu gofyn...

**Beth fydd yn digwydd ym mis Medi 2013?**
Bydd holl ddisgyblion Ysgolion Uwchradd Tredelerch a Llanrhymni yn mynychu'r ysgol ar safle Tredelerch o Medi 2013.

**Ai Ysgol Uwchradd Tredelerch fydd enw'r ysgol o hyd?**
Na. O fis Medi 2013 bydd enw newydd a hunaniaeth newydd gan yr ysgol. Er na chaiff yr ysgol newydd ei chreu'n swyddogol tan fis Medi 2014, caiff disgyblion o'r ddwy ysgol eu hintegreiddio o fis Medi 2013 a bydd Blwyddyn 7 yn un grŵp blwyddyn.

**A oes digon o le yn Ysgol Uwchradd Tredelerch i holl ddisgyblion Llanrhymni?**
Oes. Mae digon o le i ddisgyblion gael eu haddysgu ar safle Ysgol Uwchradd Tredelerch o fis Medi 2013. Gwneir buddsoddiad drwy'r gwyliau, a chaiff ei gwblhau erbyn mis Medi i sicrhau bod adeiladau gwell ar gael.

**Mae fy mab yn 13 ac yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Llanrhymni. I ble yr aiff ym mis Medi 2013?**
Gall fynd i safle Ysgol Uwchradd Tredelerch, dan enw newydd, neu gallwch ei anfon i ysgol arall os oes lle ar gael.

**A fydd gwisg ysgol newydd, a faint fydd yn rhaid i mi dalu amdani?**
Bydd gan fyfyrwyr safle Ysgol Uwchradd Tredelerch, o'r ddwy ysgol, wisg ysgol newydd o fis Medi i adlewyrchu'r bartneriaeth newydd ac, yn y pen draw, yr ysgol newydd (sy'n dechrau ym mis Medi 2014). Bydd y disgyblion, staff a rhieni yn penderfynu ar y wisg a'r enw newydd. Mae'r Llywodraethwyr Ysgol wedi cytuno i dalu costau llawn gwisg ysgol newydd i rieni.

**Mae fy merch ym Mlwyddyn 9 a bydd yn astudio TGAU, a fydd yn gallu dal ati â'i hastudiaethau yn yr ysgol newydd?**
Bydd. Mae disgyblion Blwyddyn 9 Ysgolion Uwchradd Tredelerch a Llanrhymni wrthi'n dewis eu hopsiynau y tymor hwn, a bydd ganddynt ddewis ehangach gan fod y ddwy ysgol yn cydweithio.
Bydd hi a'r holl ddisgyblion eraill yn parhau ac yn cwblhau eu pynciau dewis, gan symud i'r ysgol uwchradd newydd gyda Phennaeth newydd, ac ymrwymiad i barhau â'u hastudiaethau ym Mlwyddyn 11, o Medi 2014.

**A yw cyhoeddiad Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar y posibilrwydd o gau Llanrhymni yn gynt yn golygu nad yw cynlluniau Cyngor Caerdydd yn mynd rhagddynt mwyach?**
Os caiff cynnig y Gweinidog ei dderbyn, bydd Llanrhymni yn cau flwyddyn yn gynt na'r bwriad, a gall myfyrwyr yr ysgol honno symud i'r ysgol newydd ar safle Ysgol Uwchradd Tredelerch neu i ysgolion eraill os oes llefydd ar gael. Mae'r cynlluniau i ddatblygu Partneriaeth Gwella Addysg ac agor ysgol newydd ym mis Medi 2014, ac yna symud i adeiladau modern newydd ym mis Medi 2016, yn parhau.

**Beth fydd yn digwydd i Gyrff Llywodraethu'r ddwy ysgol?**
Sefydlwyd Corff Llywodraethu newydd dros dro a fydd yn helpu i sefydlu'r ysgol newydd ac yn penodi'r pennaeth newydd. Penodwyd y Cynghorydd Derrick Morgan yn Gadeirydd y Llywodraethwyr, gyda'r llywodraethwyr eraill yn dod o du'r Awdurdod Lleol, rhieni, staff, y gymuned ac athrawon.

# Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os hoffech roi eich barn i ni, cysylltwch â ni'n uniongyrchol a gwnawn ein gorau i'ch ateb. Gallwch ffonio **029 2087 2720** neu e-bostio **ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk**

Dilynwch ni ar twitter **@CyngorCaerdydd** am holl newyddion diweddaraf y Cyngor.

NEWYDDION DIWEDDARAF Y DWYRAIN



Gallwn ddarparu'r ddogfen hon mewn iaith neu fformat arall. Ffoniwch ni ar y rhif uchod a byddwn yn trefnu hyn.
www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolion